# PWYLLGOR CYNLLUNIO

Dydd Mawrth, 27 Tachwedd 2018

**YN BRESENNOL:** Y Cynghorydd A. Lenny (Cadeirydd)

**Y Cynghorwyr:**
S.M. Allen, J.M. Charles, I.W. Davies, J.A. Davies, P.M. Edwards, W.T. Evans, S.J.G. Gilasbey, J.K. Howell, J.D. James, C. Jones, D. Jones, H.I. Jones, A. Lenny, M.J.A. Lewis, K. Lloyd, B.D.J. Phillips, G.B. Thomas and J.E. Williams

**Hefyd yn bresennol:**
Y Cynghorwyr G.H. John a fu'n annerch y Pwyllgor ynghylch Cais Cynllunio W/37575.

**Yr oedd y swyddogion canlynol yn gwasanaethu yn y cyfarfod:**
J. Edwards, Rheolwr Datblygu & Treftadaeth Adeiledig
S. Murphy, Uwch-gyfreithiwr
G. Noakes, Uwch Swyddog Rheoli Datblygu (y Dwyrain)
K. Thomas, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd

**Y Siambr, Neuadd y Sir - 12.00 - 1.40 pm**

## 1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorwyr K. Madge a J. Prosser

## 2. DATGAN BUDDIANNAU PERSONOL

| Y Cynghorydd | Rhif y Cofnod | Y Math o Fuddiant |
|---|---|---|
| K. Lloyd | 3 - Cais Cynllunio W/37575 - Estyniad deulawr y tu cefn i'r breswylfa yn rhif 13 Plas Penwern, Tre Ioan, Caerfyrddin, SA31 3PN | Yn perthyn i wrthwynebwr y cais |

## 3. W/37575 - ESTYNIAD DEULAWR Y TU CEFN I'R BRESWYLFA YN RHIF 13 PLAS PENWERN, TRE IOAN, CAERFYRDDIN, SA31 3PN

(NODER: Gadawodd y Cynghorydd K. Lloyd, a oedd wedi datgan buddiant yn gynharach yn yr eitem hon, Siambr y Cyngor ac ni chymerodd unrhyw ran ym mhenderfyniad y Pwyllgor ar yr eitem)

Cyfeiriodd yr Uwch-swyddog Rheoli Datblygu (Rhanbarth y Dwyrain) at ymweliad preifat y Pwyllgor â'r safle'n gynharach y diwrnod hwnnw (gweler cofnod 4.1 o gyfarfod y Pwyllgor Cynllunio ar 2 Hydref 2018) a drefnwyd er mwyn i'r Pwyllgor gael golwg ar y safle yn sgil pryderon mewn perthynas ag effaith bosibl y datblygiadau ar yr eiddo cyfagos. Cyfeiriodd, gyda chymorth sleidiau PowerPoint, at adroddiad ysgrifenedig y Pennaeth Cynllunio a oedd yn rhoi arfarniad o'r safle, ynghyd â disgrifiad o'r datblygiad arfaethedig, crynodeb o'r ymatebion a gafwyd i'r ymgynghoriad a gwybodaeth am y polisïau lleol a chenedlaethol a oedd yn berthnasol wrth asesu'r cais. Dywedodd fod y Pennaeth Cynllunio yn argymell

cymeradwyo'r cais am y rhesymau y manylwyd arnynt yn ei hadroddiad ysgrifenedig.

Daeth sylw i law a wrthwynebai'r cais, ac a oedd yn ailbwysleisio'r gwrthwynebiadau y manylwyd arnynt yn adroddiad y Pennaeth Cynllunio a chyfeirio at yr effaith bosibl o golli golau a'r effaith niweidiol ar eiddo cyfagos, byddai'r estyniad arfaethedig yn groes i ethos dylunio'r ystâd dai, a oedd wedi cael ei hadeiladu yn unol â dwysedd penodol tra sicrhau preifatrwydd a golau naturiol. Hefyd cafodd y cynnig ei ystyried yn groes i Bolisi GP6 o Gynllun Datblygu Lleol Sir Gaerfyrddin.

Ymatebodd yr Uwch-swyddog Rheoli Datblygu (Rhanbarth y Dwyrain) i'r materion a godwyd.

**PENDERFYNWYD caniatáu Cais Cynllunio W/37575, yn amodol ar yr amodau y manylwyd arnynt yn adroddiad ysgrifenedig y Pennaeth Cynllunio.**

**4. W/37263 - ADEILADU UN ANNEDD AR LAIN 4, HEOL DREFACH, PLASYDDERWEN, MEIDRIM, SIR GAERFYRDDIN**

Cyfeiriodd yr Uwch-swyddog Rheoli Datblygu (Rhanbarth y Dwyrain) at ymweliad preifat y Pwyllgor â'r safle'n gynharach y diwrnod hwnnw (gweler cofnod 5 o gyfarfod y Pwyllgor Cynllunio ar 18 Hydref 2018) a drefnwyd er mwyn i'r Pwyllgor gael golwg ar y safle mewn perthynas â Pholisi GP1 Cynllun Datblygu Lleol Sir Gaerfyrddin o ran cynaliadwyedd a dylunio o ansawdd uchel a oedd hefyd yn ceisio sicrhau bod y datblygiadau'n cyd-fynd â chymeriad ac ymddangosiad yr ardal ac yn eu gwella. Cyfeiriodd, gyda chymorth sleidiau PowerPoint, at adroddiad ysgrifenedig y Pennaeth Cynllunio a oedd yn rhoi arfarniad o'r safle, ynghyd â disgrifiad o'r datblygiad arfaethedig, crynodeb o'r ymatebion a gafwyd i'r ymgynghoriad a gwybodaeth am y polisïau lleol a chenedlaethol a oedd yn berthnasol wrth asesu'r cais. Dywedodd fod y Pennaeth Cynllunio yn argymell cymeradwyo'r cais am y rhesymau y manylwyd arnynt yn ei hadroddiad ysgrifenedig.

**PENDERFYNWYD caniatáu Cais Cynllunio W/37263, yn amodol ar yr amodau y manylwyd arnynt yn adroddiad ysgrifenedig y Pennaeth Cynllunio.**

**5. W/35898 - ADEILADU GWEITHDY/GAREJ FASNACHOL AR GYFER SARNAU MOTORS, CAE GER HAFOD BAKERY, HEOL LLYSONNEN, BANCYFELIN, CAERFYRDDIN**

Cyfeiriodd yr Uwch-swyddog Rheoli Datblygu (Rhanbarth y Dwyrain) at ymweliad preifat â'r safle gan y Pwyllgor yn gynharach y diwrnod hwnnw (gweler cofnod 5.2 o gyfarfod y Pwyllgor Cynllunio ar 15 Tachwedd 2018), a drefnwyd er mwyn i'r Pwyllgor gael golwg ar y safle mewn perthynas â mynediad i drafnidiaeth gyhoeddus a chynaliadwyedd. Cyfeiriodd, gyda chymorth sleidiau PowerPoint, at adroddiad ysgrifenedig y Pennaeth Cynllunio a oedd yn rhoi arfarniad o'r safle, ynghyd â disgrifiad o'r datblygiad arfaethedig, crynodeb o'r ymatebion a gafwyd i'r ymgynghoriad a gwybodaeth am y polisïau lleol a chenedlaethol a oedd yn berthnasol wrth asesu'r cais. Dywedodd fod y Pennaeth Cynllunio yn argymell gwrthod y cais am y rhesymau y manylwyd arnynt yn ei hadroddiad ysgrifenedig.

Wrth ystyried y cais, cyfeiriodd y Pwyllgor at bolisïau cynllunio EMP 2 Cynllun Datblygu Lleol Sir Gaerfyrddin mewn perthynas â Chyfleoedd Gwaith Newydd, EMP 3 - Cyflogaeth - Estyniadau a dwysâd, ynghyd â Nodyn Cyngor Technegol 6 - Cynllunio ar gyfer Cymunedau Gwledig Cynaliadwy (2010) a Nodyn Cyngor Technegol 23 mewn perthynas ag asesu manteision y datblygiad yn unol â'r manteision o ran ateb y galw ar y safle nesaf a ffefrir. O ystyried y polisïau hynny, roedd y Pwyllgor o'r farn y dylid caniatáu'r cais, yn groes i argymhelliad y Pennaeth Cynllunio.

**PENDERFYNWYD caniatáu cais cynllunio W/35898 yn groes i argymhelliad y Pennaeth Cynllunio, gan yr ystyrid bod y cais yn cydymffurfio ag egwyddorion polisïau EMP 2 ac EMP3 Cynllun Datblygu Lleol Sir Gaerfyrddin a'r egwyddorion a nodir yn TAN 6 a TAN 23.**

**6. W/37484 - ADEILADU UN BRESWYLFA AR GYFER PERCHNOGION A GWEITHREDWYR Y CWRS GOLFF CYFAGOS; YNGHYD AG ADEILADU STORFA AR GYFER PEIRIANNAU CYNNAL A CHADW'R CWRS GOLFF, CLWB GOLFF DERLLYS COURT, HEOL LLYSONNEN, BANCYFELIN, CAERFYRDDIN, SA33 5DT**

Cyfeiriodd yr Uwch-swyddog Rheoli Datblygu (Rhanbarth y Dwyrain) at ymweliad preifat â'r safle gan y Pwyllgor yn gynharach y diwrnod hwnnw (gweler cofnod 5.2 o gyfarfod y Pwyllgor Cynllunio ar 15 Tachwedd 2018), a drefnwyd er mwyn i'r Pwyllgor gael golwg ar y safle mewn perthynas â'r ardal gyfagos, hygyrchedd i'r cyhoedd a chynaliadwyedd. Cyfeiriodd, gyda chymorth sleidiau PowerPoint, at adroddiad ysgrifenedig y Pennaeth Cynllunio a oedd yn rhoi arfarniad o'r safle, ynghyd â disgrifiad o'r datblygiad arfaethedig, crynodeb o'r ymatebion a gafwyd i'r ymgynghoriad a gwybodaeth am y polisïau lleol a chenedlaethol a oedd yn berthnasol wrth asesu'r cais. Dywedodd fod y Pennaeth Cynllunio yn argymell gwrthod y cais am y rhesymau y manylwyd arnynt yn ei hadroddiad ysgrifenedig.

**PENDERFYNWYD gwrthod cais cynllunio W/37484 am y rhesymau a nodwyd yn adroddiad ysgrifenedig y Pennaeth Cynllunio.**

**CADEIRYDD** **DYDDIAD**